

Wythnos Llyfr yn Anrheg 7 i 12 Gorffennaf 2008

Fel un o brif ymgyrchoedd y Flwyddyn Darllen yng Nghymru, bydd yr ymgyrch hon yn canolbwyntio ar annog pobl o bob oed i roi llyfrau yn anrhegion i ffrindiau a theulu. Dyma ymgyrch y gall pawb drwy Gymru ymuno â hi, gan roi sylw gwych i lyfrau ac i ddarllen!

Gyda chefnogaeth Papurau Bro Cymru, mae'r gwaith o hyrwyddo **Wythnos Llyfr yn Anrheg** eisoes ar y gweill a bydd yn parhau hyd at yr wythnos ei hun. Mae posteri a nodau llyfr lliwgar wedi eu cynhyrchu, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu'n eang i lyfrgelloedd a siopau. Gwneir ymdrech arbennig i sicrhau sylw yn y Wasg a'r cyfryngau, gan ofyn i wahanol bersonoliaethau gyflwyno llyfrau i gyfeillion, a bydd hysbyseb radio arbennig yn cael ei chynhyrchu a'i darlledu'n eang er mwyn cyrraedd cynulleidfa mor fawr â phosibl.

Bydd adran arbennig ar gyfer **Wythnos Llyfr yn Anrheg** ar wefan y Flwyddyn Darllen (www.blwyddyndarllengenedlaethol.org.uk) a bydd cyfle yno i aelodau'r cyhoedd nodi pa lyfrau y byddan nhw'n eu rhoi'n anrhegion yn ystod yr wythnos.

Mae darllen yn sgil hanfodol ar gyfer pob agwedd ar fywyd ac mae'r Flwyddyn Darllen yn gyfle gwych i dynnu sylw at bwysigrwydd darllen ac i ddathlu pler

Dyma ddilyn anogaeth y Cyngor Llyfrau a neilltuo tudalen o'r *Arwydd* i hyrwyddo **Wythnos Llyfr yn Anrheg**. Mae'r ddihareb 'Lleufer dyn yw llyfr da' yn gyfarwydd inni i gyd a braf yw gweld y niferoedd ac amrywiaeth o lyfrau Cymraeg sydd ar y farchnad erbyn hyn. Mae yna ystod eang o lyfrau deniadol i ddiddori plant, ieuencid ac oedolion. Da deall bod yr arfer o ddweud neu ddarllen stori i'r plant ifanc yn mynd i gysgu yn dal yn arfer poblogaidd mewn llawer cartref. Mae llyfrgelloedd deniadol mewn ysgolion ac mae wasanaeth ardderchog i'w gael gan ein llyfrgelloedd cyhoeddus.

Tybed a ydym yn sylweddoli mor doreithiog o awduron cyfoes yw bro'r *Arwydd*. Ar y dde mae ymgais i restru enwau'r awduron yma. Tra'n sylweddoli y gall rhestru enwau fod yn beth peryglus i'w wneud gan mae'n hawdd gadael enw allan. Os yw hynny wedi digwydd, ymddiheurwn, rhowch wybod inni a byddwn yn falch o wneud cywiriad yn y rhifyn nesaf. Mae ugain a rhagor o awduron yn nifer sylweddol sy'n dyst o gyfoeth llenyddol ein bro.

Mae'r Cyngor Llyfrau, gyda nawdd Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnig werth £100 o docynnau llyfrau i bob Papur Bro sy'n neilltuo tudalen i'r wythnos arbennig yma gyda rhyddid i'w defnyddio yn ôl doethineb y Pwyllgor Llywio lleol. Efallai y gellid trefnu cystadleuaeth i enwi cymaint ag sy'n bosib o gyfrolau yr awduron sydd wedi eu henwi. Tipyn o dasg ddywedwn i. Gwylwch am wybodaeth bellach ar ôl gwyliau'r haf. Croeso hefyd i unrhyw syniadau eraill at wneud defnydd o'r tocynnau llyfr.

Geraint ac Eurwen Thomas

a mwynhad y gair ysgrifenedig. Gall darllen agor drysau i fydoedd newydd!

Cydlynir y Flwyddyn Darllen yng Nghymru gan Gyngor Llyfrau Cymru, gyda nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

2008

Blwyddyn Darllen

GENEDLAETHOL

AWDURON CYFOES CYLCH YR ARWYDD (Cyfrolau Cymraeg) nid mewn unrhyw drefn

Mair y Wern, Llanelian

William Owen,
Borth y Gest

Glyndwr Thomas,
Cemaes

Dafydd Islwyn,
Bargoed

Eryl Rowlands, Y Barri

Sonia Edwards, Bodffordd

Myfanwy Bennett Jones,
Llanfairpwll

John Idris Owen, Dinbych

J. O. Roberts, Benllech

Dewi Jones, Benllech

Y Parchedig Emlyn Richards,
Cemaes

Einir Jones, Rhydaman

Bedwyr Rees, Llangefni

Gwyn Llewelyn,
Caernrfon

Geraint Jones,
Llannerch-y-medd

John Richard Williams,
Llangefni

Audrey Mechell,
Mynydd Mechell

E. Wyn Hughes,
Llannerch-y-medd

Grês Roberts, Y Felinheli

Mair Wyn
Hughes, Pentraeth

Griff Roberts, Dyserth

Dylan Rees, Caerdydd
(Dramodydd)

Llio Rhydderch, Marian-glas
a Huw Roberts, Benllech

Vaughan Hughes, Benllech

Arwel Jones, Rhosybol

CEFNOGWCH WYTHNOS LLYFR YN ANRHEG

7-12 GORFFENNAF 2008



PLESER A GWERTH DARLLEN

Ar sil ffenest y briws, pan oeddwn yn blentyn yn Croesau, roedd dau lyfr pwysig - Beibl Peter Williams a llyfr coginio yr enwog Mrs Beeton ei hun. Roedd yna luniau lliw ynddynt ac fe gefais fy rhwydo ganddynt, ymhell cyn i mi gyrraedd i Ysgol y Sarn, a fûm i fawr o dro nad oeddwn i'n darllen Cymraeg yn rhugl. Dotiais at lyfryn *Oriau difyr yn yr Ysgol* a ddefnyddiai fy athrawes, y ddiweddar Mrs Madge Jones, ac fe gefais gopi ganddi ar fy mhen blwydd yn chwech oed, ac fe'i trysorais hyd heddiw.

Cymraeg oedd iaith yr ysgol, a llyfrau Cymraeg a gawn yn ddi-feth. Mae rhai ohonynt yma o hyd - *Beibl y Plant*, *Y Doctor Bach*, *Straeon y Pentan* a *Troeon Bywyd*. Fe dreuliodd *Llyfr Mawr y Plant* rhwng fy chwaer a minnau, a William mab fy nghefnder a oedd yn rhy wael i fynychu ysgol. Dysgais ddarllen Saesneg heb yn wybod i mi fy hun mae'n rhaid!

Colled aruthrol oedd cael fy magu ymhell o gyrraedd llyfrgell, ond bellach mae fy nghartref fel llyfrgell, yn orlawn o lyfrau ffeithiol ar wahanol bynciau, o natur i ddiwynyddiaeth, ac mae yma llyfrau barddoniaeth, hunangofiannau, a nofelau clasurol ac ysgafn mewn tair iaith a llawer mwy. Oes, mae yma 'domen o wybodaeth' er nad ydy popeth yn apelio ataf. Heddiw mae sawl clasur wedi ei droi'n ffilm, weithiau er gwell neu er gwaeth.

Ers talwm ffieiddiwn at Moll Flanders, y ffilm ond tosturiwn hefo Moll yn nofel enwog De Foe. Gwelsom gampweithiau Cymraeg a Saesneg ar y sgrîn fel *Lleifior*, Islwyn Ffowc Elis; *Enoc Huws*, Daniel Owen; *Y Wisg Sidan*, Elenna Puw Morgan; *Un Nos Ola Leuad*, Caradog Prichard, nofelau Dickens ac Austen a llawer o rai eraill a heb os maent wedi fy hudo i ail ddarllen ac i ail fwynhau'r cyfrolau.

Mae'r *Cymro* yn caniatâu i ni fod â'n bys ar byls y Wasg Gymraeg, a dyna gystadleuaeth Llyfr y Flwddyn a chynhyrchion y Steddfod Genedlaethol i'w mwynhau. Daw'r *Times* a'u dewis hwythau o lyfrau dethol yn wythnosol, a rhaid cael ambell un os bydd canmoliaeth.

Heddiw mae digonedd o lyfrau plant. Gwnaeth Angharad Tomos gymwynas â phlant bach Cymru a daeth J. K. Rowlings i agor drysau i lawer. Penbleth pobl sy'n symud i dŷ llai yw beth i'w wneud â'u llyfrau. "Dydw i ddim eisiau madael â dim un ohonyn nhw," meddai cyfaiil i mi, "nhw ydy fy ffrindiau." Rhad arnaf innau os daw'r diwrnod mudo, cans 'Lleufer dyn yw llyfr da.'

Gwen Croesa



GLYNDWR A GWEN THOMAS, CEMAES.

Diolch yn fawr am yr erthygl ar Bleser a Gwerth Darllen.

TED, WILLIAM, JOHN A NIA

Os am dridiau o wir foddhad, wel, taith o Gemaes i Drefeca yn Sir Frycheiniog gyda Chymdeithas yr Engan amdani. Ac nid oedd y daith eleni yn ddim eithriad, - dan gyfarwyddyd arloesol Ted Huws, - a threfn ddilychwin Margaret Williams wrth gwrs.

Ymwelwyd â'r Brifddinas cyn symud ymlaen i Lanfaches, ger Casnewydd, cartref Anghydfurfiaeth Cymru. Yn 1638 rhoddodd William Wroth y gorau i fod yn rheithor Eglwys Llanfaches a thro'i ei gôt i fod yn weinidog Annibynol cyntaf Cymru. Fe bery'r gofal am y capel ac yr oedd "y peintwrs i mewn" yn ystod ein hymweliad ninnau â'r fan bwysig hon yn hanes crefydd Cymru ond cawsom bob croeso i fynd i mewn, yn answyddogol felly. Ffwrdd â ni wedyn heibio cofeb Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri, i Langamarch ac ar hyd y ffordd gul at Gefn Brith. Heb fod ymhell mae Pen Rhiw (neu Penrhiw-llwyn-fynwent i roi iddo ei enw Dydd Sul), cartref Rhys Price, awdur y *Llysieu-lyfr Teuluol* (1849). Yn yr un ardal mae Cefn Bryn cartref yr awdur Saesneg James Howell. Fûm i erioed yng Nghewn Brith o'r blaen, y tyddyn bychan fu'n gartref i fachgen deg ar hugain oed a heriodd awdurdod y Frenhines gan sefyll wrth ei ddaliadau hyd angau. Pan oedd John Penri yn fyfyrwr yn Rhydychen daeth i gysylltiad â'r Piwritaniaid a theimlai nad oedd Cymru'n cael chwarae teg yn eu crefydd ac nad oeddynt yn cael dim cenhadaeth yn eu hiaith eu hunain. Ysgrifennodd dri thraethawd i annog y Frenhines Elisabeth i dynnu ei hewinedd o'r blew a threfnu mwy o bregethu'r Gair yng Nghymru, a hynny yn Gymraeg. Fe aeth cyn belled â galw'r esgobion diweledigaeth yn *llofruddion a thrachwantus*. Doedd hynny ddim yn mynd i lawr yn dda gyda'r Frenhines na'r awdurdodau eglwysig. Ar ei ffordd yn ôl i Gymru o'r Alban fe'i cymerwyd i'r ddalfa yn Llundain. Er iddo dweud mai ei unig amcan oedd achub eneidiau ei gyd Gymru fe'i crogwyd ym mis Mai 1593. Codwyd pulpud coffa i John Penri yng Nghapel yr Annibynwyr yn Southwark.

Tawelwch a gawsom ni ar dir Cefn Brith ac ni bu dim tebyg i'r anghydfod a gafodd O. M. Edwards pan holodd y ffordd i'r tyddyn fu'n gartref i'r gŵr yr oedd cysur ysbrydol gwerin ei wlad a'r Gymraeg mor bwysig iddo. Gwelai yr heddeidwad bol-bwysig ei hun yn fwy o awdurdod ar y Cymry nag o wasanaethwr, "I don't know what you say, you should speak English," oedd ei orchymyn. Mae'n debyg i'r Swyddog hwnnw fod yn rhy ddwl i ymddiheuro am ladd ar yr iaith Gymraeg ond fe ddylai Eglwys Loegr ymddiheuro i Gymru am ladd John Penri.

Hyfryd oedd galw i weld olion Abaty Ystrad Fflur ar y ffordd adref, abaty lle, yn ôl T. Gwynn Jones -

Mae dail y coed yn Ystrad Fflur
Yn murmur yn yr awel,
A deuddeng abad yn y gro
Yn huno yno'n dawel.

Yma hefyd y claddwyd o leiaf naw 'pennaeth llym' ei gledd,' disgynyddion Rhys ap Gruffudd, yr Arglwydd Rhys, - a Dafydd ap Gwilym wrth gwrs, er y buasai Eglwys Talylychrau yn eich galw i gyfrif am honiad o'r fath (sydd hefyd yn mynwsu bedd y bardd). Abaty Sistersaidd yw Ystrad Fflur ac fe aeth fy meddwl i abaty arall a godwyd gan y Brodyr Gwynion, yn enwedig pan welais gerdd Nia Rowlands i Abaty Cymer ger Dolgellau. Cofiwch, yr ydym yn ddyledus iawn i'r Brodyr Gwynion am eu cyfraniad mawr i amaethyddiaeth yng Nghymru yn y Canol Oesodd. Mae yma hergwd i Harri'r Wythfed hefyd am ei waith yn chwalu'r mynachlydd. Dyma gerdd Nia -

Yma bu'r Brodyr Gwynion
Yn syml eu hystâd
Rhwng muriau cysegredig
Yn cadw oed â'r Tad;
A sŵn paderau yn y clyw
Wrth drin y tir yng ngerddi Duw.

Fe'i chwalwyd oll gan drachwant
A hunanoldeb dyn,
A'i daflu i'r elfennau'n
Hen furddun oer di-lun;
A'r gelyn Amser yn ei dro
A drodd yr allwedd yn y clo.

Hen furiau oer diaddurn
Yn graith ar ddaear ir;
Hen adlais pell o fynach
Yn troedio hyn o dir
Yw'n hetfeddiaeth, sydd o hyd
Yn dwyn i gof rhyw arall fyd.

Dewi Jones